Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Dinefwr

**Heol Myrddin**
**Ffairfach**
**Llandeilo**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA19 6PE**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Dinefwr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Dinefwr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Dwyieithog, Categori 2 |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1138 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 969 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 170 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.1%) | 15.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 11.2%) | 9.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 26.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/04/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/02/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/09/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Dinefwr yn gymuned ofalgar lle mae staff yn blaenoriaethu lles disgyblion. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'n bersonol a chymdeithasol trwy wersi pwrpasol a thrwy amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol o ran chwaraeon, creadigol, cerddorol a pherfformio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyd-chwarae a chymdeithasu'n waraidd yn ystod amseroedd egwyl a chinio ac yn mynegi bodlonrwydd am y ffordd  maent yn cael eu trin. Mae'r gydberthynas agos a chynhaliol rhwng staff a disgyblion yng Nghanolfan Cothi yn nodwedd gref. Rhoddir cefnogaeth emosiynol ac academaidd werthfawr i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y prif lif yng Nghanolfan Barcud a thrwy'r ddarpariaeth awyr agored ysgogol a llesol, 'Natur'.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan yn eu medrau pwnc o ganlyniad i addysgu grymus a chynllunio gofalus eu hathrawon. Er bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol, nid ydynt yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent oherwydd diffygion yn yr addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys disgwyliadau rhy isel gan athrawon, cyfradd araf i'r gwersi a diffyg cynllunio tasgau sy'n datblygu medrau meddwl ac annibyniaeth disgyblion yn ogystal â'u medrau llythrennedd, rhif a digidol.

Mae'r ysgol yn cynnig dewis eang iawn o gyrsiau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth gyda llawer ohonynt ar gael yn y ddwy iaith ar wahân. Mae gwerthusiad o'r cynnig cwricwlaidd a'r cynllunio strategol ar gyfer addasiadau angenrheidiol yn eu dyddiau cynnar.

Ers ei benodiad ym Ebrill 2023, mae'r pennaeth wedi arddel diwylliant o degwch a pharch. Mae wedi sefydlu trefn rheolaeth llinell bendant ac wedi adnabod prif feysydd gwella'r ysgol. Serch hyn, nid yw rolau a chyfrifoldebau rhai uwch arweinwyr wedi'u diffinio'n glir ac nid yw gweithdrefnau presennol yr ysgol o sicrhau ansawdd ei gwaith yn ddigon miniog i ganiatáu iddynt adnabod yr union agweddau y mae angen eu gwella. Nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwneud cyswllt digon agos rhwng ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna'r disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn danddatblygedig.

Mae'r llywodraethwyr yn angerddol dros yr ysgol ac yn gefnogol iawn i'w gwaith. Mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n briodol. Er bod arweinwyr yn holi barn staff am agweddau o waith yr ysgol, nid ydynt yn ceisio barn rhieni a disgyblion yn ddigon rheolaidd i'r cynorthwyo i gynllunio gwelliannau.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 6 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Gwella addysgu, gan roi sylw penodol i godi disgwyliadau athrawon o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni a chynyddu lefel yr her i ddisgyblion o bob gallu

A2 Sicrhau darpariaeth gydlynus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhif a digidol disgyblion

A3 Miniogi trefniadau hunan a chynllunio ar gyfer gwelliant fel bod arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

A4 Cryfhau’r cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth ac ar gyfer rolau a chyfrifoldebau arwain ysgol gyfan

A5 Gwella presenoldeb

A6 Sicrhau rheolaeth a monitro priodol o’r gyllideb

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae llawer o athrawon wedi sefydlu arferion cyson a threfnus yn eu gwersi sy’n hybu naws weithgar a chynhaliol ac mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar yn eu dosbarthiadau yn cefnogi awyrgylch ddysgu ysgogol. Mewn llawer o achosion, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol o ran ymddygiad ac mae hyn yn arwain at sefydlu perthynas waith gadarnhaol lle mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch tuag at eu hathrawon, staff cymorth a’u cyfoedion. Drwyddi draw, mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn rheoli ymddygiad ac ymdrech yn ddigon effeithiol ac mae hyn yn arwain at ddisgyblion yn colli diddordeb a chanolbwyntio, yn siarad ymysg ei gilydd neu ar draws yr athro ac yn rhy araf yn cwblhau tasgau. Yn yr ychydig wersi lle mae perthnasoedd gwaith a’r addysgu yn gryf, mae ymddygiad ac agweddau disgyblion at waith yn rhagorol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn barod eu cyfraniadau ac yn gwneud cynnydd buan a chadarn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn meddu ar agwedd gadarnhaol at ddysgu ac at ddysgu. Maent yn dangos diddordeb yn eu pynciau dewis ac yn cydweithio’n effeithiol gydag athrawon. Mae llawer yn dangos dealltwriaeth gryf o waith blaenorol ac yn defnyddio terminoleg gywir pan fyddant yn ateb cwestiynau. Mae ychydig yn dangos dealltwriaeth gryf iawn o’r pwnc gan egluro cysyniadau cymhleth yn huawdl.

Mewn llawer o wersi, mae’r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac yn fodelau iaith effeithiol. Maent, gan amlaf, yn bwydo geirfa’n addas ac yn atgyfnerthu terminoleg o fewn y pynciau. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd digonol mewn dysgu o ran datblygiad eu medrau pwnc a’u dealltwriaeth mewn gwersi neu dros amser, Mewn ychydig o achosion esbonia athrawon yr eirfa yn gyson ac effeithiol iawn er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion a’u harfogi i ddefnyddio’r  eirfa hon yn eu gwaith. Mae disgyblion yn y gwersi hyn gan amlaf yn gwneud cynnydd cryf gan adalw dysgu blaenorol yn gadarn a gwneud defnydd o’u gwybodaeth i gwblhau tasgau newydd yn llwyddiannus. Yn gyffredinol ar draws mwyafrif o bynciau, nid oes gan leiafrif y disgyblion afael digon cadarn ar eu dysgu blaenorol i sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o fewn gwersi a thros amser. Mae hyn oherwydd:

- Diffygion yng nghynllunio’r athrawon
- Diffyg her mewn tasgau
- Gor-ddibyniaeth disgyblion ar athrawon
- Disgwyliadau isel o beth a faint y gall disgyblion ei gyflawni mewn gwers unigol a thros amser

Yn unol â pholisi’r ysgol, mae bron bob un athro yn cynllunio tasgau cychwynnol ‘Dechrau da’. Er bod y gweithgareddau hyn yn fodd i setlo disgyblion i waith, mae athrawon yn treulio gormod o amser arnynt. Mae hyn yn llesteirio’r disgyblion rhag dysgu gwybodaeth newydd a symud y dysgu yn ei flaen. Mae’r mwyafrif o athrawon yn cynllunio dilyniant addas o weithgareddau defnyddiol sy'n cefnogi'r disgyblion i ddysgu. Maent yn darparu adnoddau apelgar ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu'n gelfydd ar ei gilydd i alluogi plant i ddysgu a gwneud cynnydd digonol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw natur tasgau na chyflymder y gwersi yn galluogi disgyblion i gyflawni eu potensial ac nid yw tasgau'n cynnig lefel addas o her neu gefnogaeth i ddisgyblion. Yn yr achosion hyn:

- Mae athrawon yn cynllunio cyfres o dasgau byrion sy’n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach nag ystyried beth sydd angen i’r disgyblion ei wybod, ei ddeall neu ei gyflawni i sicrhau cynnydd
- Mae’r gyfradd ddysgu yn rhy hamddenol lle nad yw disgyblion yn gweithio cystal ag y gallent nac yn ymroi hyd eithaf eu gallu mewn tasgau
- Nid yw athrawon yn cynllunio’n ddigon gofalus ar gyfer diwallu anghenion disgyblion o wahanol alluoedd ac anghenion

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn symud o amgylch y dosbarth er mwyn gwirio gwaith disgyblion a chynnig cefnogaeth bwrpasol iddynt. Yn yr achosion gorau, maent yn cynnig adborth llafar adeiladol ac amserol i’r disgyblion wella eu gwaith. Ar y cyfan, mae cynorthwywyr dysgu yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion mewn gwersi ac yn cydweithio’n bwrpasol â’r athrawon.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio cwestiynau syml yn effeithiol i adalw gwybodaeth sylfaenol ar ddechrau'r gwersi. Mae ychydig o athrawon yn holi’n effeithiol er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn ddyfnach a datblygu eu hymatebion. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae’r athro yn holi’n gelfydd gan helpu disgyblion i wneud cysylltiadau yn eu dysgu, a thrwy hyn yn ysgogi gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y disgyblion yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon yn holi’n ddigon treiddgar nac yn ddigon estynedig i brocio dealltwriaeth y disgyblion yn ddigon da. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn dibynnu ar yr un disgyblion i ateb cwestiynau, neu’n rhoi’r atebion i’r disgyblion eu hunain. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ddefnyddio nac i ddatblygu eu medrau meddwl, nac yn datblygu annibyniaeth.

Yn ddiweddar, mae adrannau wedi dechrau datblygu dulliau amrywiol o asesu gwaith disgyblion a darparu adborth ysgrifenedig iddynt. Mae ychydig o athrawon yn darparu adborth penodol iawn sy’n arwain y disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad o ran ansawdd ac effaith yr adborth i ddisgyblion, yn ogystal â’r disgwyliadau ohonynt i ymateb. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y disgyblion o beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wella yn amrywio. Ar y cyfan, ychydig iawn o sylw a roddir i wallau sillafu a gramadeg disgyblion. Er bod y mwyafrif o ddisgyblion mewn pynciau iaith yn gwella cywirdeb eu hysgrifennu drwy adolygu a golygu, prin iawn yw’r disgyblion sy’n gwneud gwelliannau i ansawdd eu gwaith ar draws y pynciau eraill.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi rhoi cynllun ar waith ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhif, a digidol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau cynllunio a gwerthuso yn ddigon strategol na chydlynus. O ganlyniad, mae’r cyfleoedd sydd gan ddisgyblion i ddatblygu medrau cynyddol mewn llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm yn anghyson ac annigonol. Mewn ychydig o bynciau, mae athrawon yn cynllunio tasgau cyfoethog iawn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn gynyddol. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion siarad a gweithio mewn parau a grwpiau mewn tasgau llythrennedd ar draws llawer o bynciau.

Yn y gwersi Cymraeg, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio geirfa addas ac amrywiol yn gywir i fynegi eu hunain ar lafar ac maent yn aml yn cynnig atebion estynedig. Yn y gwersi Saesneg, mae llawer o’r disgyblion yn cyfrannu’n hyderus ar lafar ac yn dangos dealltwriaeth dda o’r pwnc wrth ateb cwestiynau. Mewn pynciau eraill, o gael y cyfle, mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn huawdl ar lafar. Maent yn cynnig atebion estynedig gan gynnwys geirfa pwnc addas ac yn rhoi rhesymau dilys dros eu safbwyntiau. Yn y mwyafrif o wersi, dim ond tua lleiafrif sy’n barod i gyfrannu ar lafar ac maent gan amlaf yn rhoi atebion byr, annatblygedig. Ychydig o ddisgyblion sy’n fedrus neu’n barod i wneud cyfraniadau ar lafar yn y gwersi ieithoedd tramor modern.

Yn y gwersi Cymraeg a Saesneg, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen addas. Maent yn llwyddiannus wrth gaffael gwybodaeth a syniadau o ddarnau darllen estynedig ac, yn gyffredinol, maent yn dadansoddi a dehongli ystyr, ac yn dod i gasgliadau dilys. Yn y gwersi Saesneg, mae llawer yn dadansoddi'n briodol sut mae awduron yn creu awyrgylch effeithiol ac mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn crynhoi tebygrwydd a gwahaniaethau mewn dwy gerdd yn fedrus. Yn y gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddethol a gwneud sylwadau aeddfed ar syniadau a themâu allweddol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn a mwy abl yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol gan ddehongli a gwerthuso ystyr yn hyderus, er enghraifft wrth ddadansoddi cerddi a nofelau. Fodd bynnag, yn y gwersi Cymraeg a Saesneg, wrth ddadansoddi darnau darllen, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu hatebion yn llawn. Mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn rhy amrywiol. Yn gyffredinol, mae llawer yn lleoli ffeithiau yn llwyddiannus ac yn categoreiddio gwybodaeth yn addas. Mae ychydig o ddisgyblion yn uwcholeuo gwybodaeth i bwrpas ac yn anodi yn effeithiol. Drwyddi draw, nid yw disgyblion yn ymarfer a datblygu eu huwch fedrau darllen yn ddigon cyson ar draws y pynciau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith a'u syniadau yn drefnus wrth ysgrifennu ond mae lleiafrif yn gwneud gwallau sylfaenol sillafu, atalnodi a gramadeg yn eu gwaith. Yn Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn amryw o ffurfiau yn unol â chynulleidfa a phwrpas y dasg, er enghraifft tra'n ysgrifennu stori arswyd neu ysgrifennu llythyr ffurfiol at y Prif Weinidog yn mynegi eu barn ar hela. Yn y Gymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn addasu arddull a ffurf eu hysgrifennu er mwyn gweddu i'r diben a'r gynulleidfa. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu araith yn mynegi barn am newid enwau Cymraeg tai a ffermydd lleol gan ddefnyddio gorchmynion, iaith emosiynol a chwestiynau rhethregol i greu effaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn effeithiol ar draws ychydig o feysydd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu annibynnol. Mae disgyblion yn or-ddibynnol ar restri geirfa a thablau iaith sydd ar gael iddynt. Yn rhy aml, nid ydynt yn datblygu eu hymatebion nac yn cynhyrchu gwaith â digon o swmp.

Yn y gwersi mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn plotio graffiau trawsnewid yn llwyddiannus ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddatrys problem. Mae llawer o ddisgyblion yn deall trefn gweithrediadau, yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i gyfrifo gyda gwahanol ddulliau priodol ac yn cymhwyso strategaethau addas. Mae disgyblion mwy abl yn llwyddiannus wrth wneud cyfrifiadau mwy soffistigedig. Ar draws pynciau perthnasol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn addas. Mae llawer yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio fformiwla i gyfrifo grym gwrthrych yn eu gwersi gwyddoniaeth. Mae'r mwyafrif yn llunio graff llinell yn gywir, er enghraifft wrth lunio graff buanedd yn erbyn pellter stopio. Fodd bynnag, mae datblygiad cynyddol disgyblion mewn rhifedd wrth iddynt symud trwy'r ysgol yn brin.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau digidol sylfaenol yn llwyddiannus**.** Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd ar draws yr ysgol i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer uwch fedrau digidol.

Yn y gwersi addysgu gorfforol, mae llawer yn datblygu eu medrau corfforol wrth gydweithio'n hwylus mewn tasgau tîm fel rhedeg, taflu a chicio pêl o fewn

cyfyngiadau amser. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr yn eu gwersi celf gan greu cerfluniau 3D gyda weiren. Mae'r disgyblion ar y brig yn y gwersi Saesneg yn datblygu eu creadigrwydd yn effeithiol wrth defnyddio amryw o dechnegau llenyddol er mwyn cryfhau eu disgrifiadau o gymeriadau fel Mrs Pratchett wrth astudio'r nofel 'Boy' gan Roald Dahl.

Mae'r ysgol yn cynnal canolfan ddysgu (Canolfan Cothi) i ddisgyblion gydag anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth ar ran yr awdurdod addysg lleol. Mae disgyblion Canolfan Cothi yn mwynhau'r ysgol ac mae'r staff yn eu hadnabod yn dda. Cânt brofiadau dysgu gwerthfawr a chefnogaeth gref i ddatblygu eu medrau academaidd a chymdeithasol. O ganlyniad, maent yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gam nesaf eu dysgu gan amlaf.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yn nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Cynigir cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion i'w helpu i ystyried eu llwybrau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol gan gynnwys cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr. Mae'r ysgol wedi ehangu ei chynnig cwricwlaidd drwy bartneriaethau buddiol gyda cholegau lleol i fodloni dyheadau disgyblion. Er enghraifft, cynigir amaethyddiaeth ac opsiynau ymarferol fel trin gwallt a harddwch ac adeiladu. Darperir arlwy eang iawn o bynciau dewis yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 4 ac, i raddau llai, yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn adolygu addasrwydd a chostau'r cynnig cwricwlaidd yn ddigon agos er mwyn cynllunio addasiadau synhwyrol.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer gwireddu Cwricwlwm i Gymru, sydd wedi ei seilio ar hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol, er mwyn datblygu disgyblion uchelgeisiol, parchus a charedig. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu cyfleoedd i arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad gydweithio er mwyn datblygu cynlluniau dysgu newydd. Mae arweinwyr wedi dechrau cydweithio gydag ysgolion cynradd y clwstwr i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ac wedi sefydlu gweithgor rhieni wrth ddatblygu elfennau asesu ac adrodd. Fodd bynnag, mae hyn yn ei ddyddiau cynnar.

Trwy bartneriaethau gydag asiantaethau allanol, rhoddir ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion mwy galluog gael profiadau buddiol megis ymweliadau i brifysgolion. Cynigir ychydig iawn o bynciau heriol fel mathemateg ychwanegol TGAU. Fodd bynnag, nid oes strategaeth ddigon clir ar draws yr ysgol i gefnogi datblygiad disgyblion mwy abl, gan gynnwys strategaethau addysgu pendant i'w herio.

Mae trefniadau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn gadarn. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hyd at Flwyddyn 11 ddysgu am amrywiaeth, hawliau dynol, moeseg, cydraddoldeb a dinasyddiaeth trwy wersi ABCh wythnosol. Mae'r ysgol wedi ystyried cynnwys y gwersi hyn yn ofalus yn seiliedig ar holiaduron disgyblion a materion allweddol sydd wedi codi trwy waith staff bugeiliol. Ceir cyfleoedd buddiol i drafod materion cyfoes megis hawliau ac i ddatblygu ymwybyddiaeth wleidyddol mewn ychydig o bynciau ar drws y cwricwlwm, er enghraifft trwy'r uned waith 'Ein Senedd Ni' gan adran y Gymraeg. Mae ychydig o gyfleoedd addas i ddisgyblion y chweched drafod rhai materion pwysig o bwys ond nid oes trefniadau digon cyson iddynt.

Mae amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau pwnc yn ehangach y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys clwb drama, clybiau chwaraeon amrywiol, clwb codio, clwb garddio a theithiau tramor.

**Ciplun: Addysg yn yr awyr agored yn llesol i ddisgyblion**

Fel rhan o ddatblygiadau cwricwlaidd, mae staff a disgyblion wedi datblygu ardal allanol eang sy'n caniatáu dysgu yn yr awyr agored a hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles emosiynol. Mae'r ddarpariaeth allanol yn 'Natur' yn caniatáu i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig o ddisgyblion eraill ddatblygu medrau ymarferol defnyddiol fel plannu, coginio yn yr awyr agored a gofalu am ieir a geifr. Cânt ddatblygu eu dealltwriaeth o ffermio cynaliadwy drwy gyfleoedd dysgu gwerthfawr fel creu creision afal neu sudd. Mae disgyblion yn tyfu amrywiaeth o gynnyrch a'i werthu'n lleol neu ei ddefnyddio mewn gwersi iechyd a lles coginio.

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae cefnogi lles disgyblion a hyrwyddo cynhwysiant yn nodwedd gref yn Ysgol Bro Dinefwr. Caiff hyn ei adlewyrchu yng ngwerthoedd yr ysgol, sef 'byddwn barchus, byddwn uchelgeisiol, byddwn garedig'. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae'r amgylcheddau dysgu yn ddeniadol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gymell lles cadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn groesawgar a chwrtais wrth gyfarch ymwelwyr ac yn chwarae a chyd-dynnu yn waraidd yn ystod cyfnodau egwyl a chinio. Mae'r tîm lles yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion ac maent yn meithrin perthynas agos a chadarnhaol â nhw. Rhoddir cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion sydd angen cymorth emosiynol ac ymddygiadol yn y 'Ganolfan Ymddygiad' ac, yn gyffredinol, mae hyn yn cael effaith briodol ar les ac agweddau'r disgyblion hyn. Mae gan yr ysgol system wobrwyo addas sy'n hyrwyddo a dathlu ymddygiad ac ymdrech bositif y disgyblion ac maent yn gallu defnyddio pwyntiau clod er mwyn cael nwyddau o'r siop ysgol neu wneud cyfraniad tuag at elusen.

Mae staff a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant diogelu buddiol yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a sut a phryd i gyfeirio unrhyw bryderon. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o wybodaeth berthnasol o amrywiol ffynonellau i adnabod disgyblion bregus a sicrhau eu bod yn monitro lles y disgyblion hyn yn briodol. O ganlyniad i'r trefniadau cadarn hyn, mae llawer o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn dweud eu bod yn cael eu trin yn deg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dweud nad ydynt yn cael eu bwlio.

Mae'r ysgol yn gweithio'n ddilys gyda disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Lle bo'n briodol, maent wedi meithrin partneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau allanol i gynnig cefnogaeth i'r disgyblion hyn. Ceir trefniadau priodol i fonitro presenoldeb ac mae'r ysgol wedi buddsoddi'n hael yn y timoedd bugeiliol a'i darpariaeth i wella presenoldeb. Mae hyn yn cynnwys gweithio ag asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus neu i gefnogi teuluoedd bregus. Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, gostyngodd cyfradd presenoldeb yr ysgol yn fwy na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Roedd cynnydd yn y gyfradd bresenoldeb o 1% y llynedd, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae presenoldeb

disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim hefyd wedi gwella ychydig. Fodd bynnag, mae cyfradd presenoldeb yr ysgol yn parhau i fod yn llawer is na'r disgwyl.

Caiff disgyblion eu hethol i'r Senedd Ysgol a'r Cyngor Eco ac maent wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ychydig o agweddau megis trefnu siop cyfnewid gwisg ysgol. Mae aelodau wedi cydweithio gyda swyddogion o'r awdurdod addysg er mwyn cael mwy o ddewisiadau iach yn y ffreutur. Mae hyn wedi arwain at brosiect ble mae fferm leol yn tyfu cynnyrch ar gyfer yr ysgol. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion hŷn yr ysgol i arwain clybiau a gwirfoddoli fel 'bydis darllen'. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion eraill yn ddigon ymwybodol o waith y Senedd a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar ddysgu ac addysgu a phenderfyniadau'r ysgol. Nid oes cynrychiolaeth disgyblion ar y corff llywodraethol.

Mae cyfleoedd eang i ddisgyblion ddatblygu'n bersonol a chymdeithasol tu allan i wersi. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o glybiau fel clwb gwau, clwb ffrindiau a chyfle iddynt gymryd rhan yn y sioe gerdd ysgol 'Grîs'. Mae trefniadau cadarn i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 7 ac mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu a setlo'n dda yn yr ysgol.

Mae gan y tîm anghenion dysgu ychwanegol (ADY) adnabyddiaeth briodol o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Mae gweithdrefnau cadarn i ddod i adnabod anghenion darpar ddisgyblion yn gynnar drwy'r broses bontio gref. Mae'r ysgol wedi paratoi'n briodol ar gyfer bodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg Cymru ac mae cynlluniau addysg unigol yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion ac yn cynnwys targedau addas. Mae proffiliau un dudalen disgyblion yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac yn cael eu rhannu gyda'r staff ond mae defnydd athrawon ohonynt ar gyfer cynllunio yn rhy amrywiol. Trefnir hyfforddiant addas i staff addysgu yr ysgol ar ddulliau o gefnogi disgyblion ADY. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y staff o anghenion disgyblion unigol. Ar y cyfan, mae'r tîm ADY yn cydlynu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY yn addas. Ceir cydweithio effeithiol rhwng staff Canolfan Cothi ac uned Barcud yn y prif lif ar gyfer disgyblion ag anghenion mwy dwys i sicrhau bod y gefnogaeth wedi ei theilwra'n bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ag asiantaethau allanol perthnasol er mwyn sicrhau cynllunio ar gyfer y camau nesaf i'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, mae trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer y ddarpariaeth ADY yn annatblygedig sy'n golygu nad oes gan arweinwyr drosolwg strategol clir o effaith y ddarpariaeth hon ar safonau a chynnydd disgyblion.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n awyddus i greu cymuned gynhwysol er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl 'esgyn ar adain dysg'. Mae'n coleddu ei werthoedd o degwch a pharch ac yn fodel rôl cadarnhaol. Ers ei benodiad fel pennaeth yr ysgol, mae wedi gweithio'n ddiwyd i sefydlu cyfundrefnau sy'n ffocysu ar ddatblygu gallu arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, i yrru gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn wedi cael amser i gael effaith ar agweddau pwysig yn cynnwys ansawdd yr addysgu, darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a chodi lefelau presenoldeb.

Mae'r uwch dîm arwain yn cydweithio i gefnogi'r pennaeth a chyflawni eu dyletswyddau. Mae eu cyfrifoldebau wedi eu dyrannu'n lled synhwyrol er mwyn

manteisio ar arbenigeddau unigolion. Serch hyn, mae cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain ac arweinwyr eraill yn dyblygu neu orgyffwrdd mewn ychydig feysydd sy'n golygu nad yw llinellau atebolrwydd yn glir.

Mae uwch arweinwyr wedi adnabod pedair prif flaenoriaeth gwella sy'n briodol, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid ydynt wedi defnyddio'r ystod lawn o wybodaeth sydd ar gael iddynt i adnabod yr union agweddau sydd angen eu gwella. Nid yw'r gwaith cynllunio bob amser yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yn ddigon penodol na strategol ac nid oes ystyriaeth lawn o beth fydd effaith ddisgwyliedig unrhyw weithredoedd ar safonau a deilliannau disgyblion. Mae hyn yn rhwystro arweinwyr rhag mesur llwyddiant a dal eraill yn atebol am eu gwaith.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau sicrhau ansawdd priodol. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, cyfleoedd i graffu ar waith a holi barn staff. Mae arweinwyr yn dechrau dadansoddi data perfformiad disgyblion. Defnyddia uwch arweinwyr y gweithgareddau hyn i adnabod rhai cryfderau a meysydd i'w gwella ond nid yw eu dadansoddiad yn ddigon manwl. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion a rhieni gyfrannu eu barn am waith yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi grymuso ei threfniadau i gefnogi a herio arweinwyr canol. Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr canol gydweithio â nhw i gynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd. Yn ogystal, mae cyfarfodydd rheoli llinell yn darparu cyfleoedd buddiol i drafod materion megis deilliannau ac ymyraethau ar gyfer disgyblion unigol. O ganlyniad, mae arweinwyr canol yn datblygu dealltwriaeth briodol o'u rolau ac mae gan lawer ohonynt adnabyddiaeth addas o gryfderau a meysydd i'w gwella yn eu maes cyfrifoldeb. Serch hyn, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn rhoi ffocws digon miniog ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar ddysgu. Nid yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella wedi cael digon o effaith ar feysydd pwysig fel addysgu, darpariaeth ar gyfer medrau a gwella presenoldeb disgyblion.

Mae arweinwyr wedi sicrhau diwylliant cryf o ddiogelu ac maent yn ymateb yn gadarn i flaenoriaethau cenedlaethol megis datblygu Cwricwlwm i Gymru a lliniaru effaith tlodi. Mae prosesau effeithiol i adnabod disgyblion bregus a darperir cefnogaeth fugeiliol a chwricwlaidd werthfawr iddynt. Mae arweinwyr yn dechrau ystyried effaith y ddarpariaeth hon ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei wario a'i werthuso'n addas.

Mae gan y pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr wybodaeth fanwl am sefyllfa ariannol yr ysgol ac maent yn monitro gwariant yn gyson. Fodd bynnag, mae cyllideb yr ysgol mewn diffyg sylweddol. Er bod arweinwyr wedi adnabod rhai meysydd ble gellir gwneud arbedion, nid ydynt wedi mynd i'r afael â hyn yn ddigon grymus gan gynnwys edrych ar ba mor gost-effeithiol yw'r cwricwlwm.

Mae llawer o staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a roddir iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Gan amlaf, mae'r rhain wedi eu cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae cymunedau dysgu proffesiynol yn rhoi cyfleoedd buddiol i staff drafod a rhannu adnoddau ac arferion. Ceir trefniadau rheoli perfformiad addas i staff ar bob lefel. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr effaith ar safonau a phrofiadau disgyblion.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith y pennaeth a rôl yr ysgol o fewn ei chymuned. Yn ddiweddar, mae natur ac ansawdd y wybodaeth a roddir iddynt gan arweinwyr wedi gwella ac mae hyn yn golygu eu bod yn fwy gwybodus am waith yr ysgol. Yn diweddar, maent wedi adnabod yr angen i gryfhau eu rôl fel cyfeillion beirniadol. O ganlyniad, sefydlwyd pwyllgor cwricwlwm a safonau ganddynt er mwyn eu galluogi i herio’r ysgol yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae’n  rhy gynnar i fesur ei effaith.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol; mae gan yr ysgol ddiffyg ariannol sylweddol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  02/12/2024